

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

**MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN,
CHWEFROR 4ydd, 2019, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.**

1. **CROESO** - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL** - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, yr Is-gsadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Eifion Evans; D.Gwyn Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghortydd Sir, Ifor G.Lloyd.

3. **YMDDIHEURIADAU** - y Cynghorwyr Bryn Jones a Fiona Haf Jones

4. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol ar y ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. **NI DDATGELWYD YR UN.**

5. **MUNUDAU - PENDERFYNWYD** cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 14ed 2019 yn y Ganolfan, Llanelian yn Rhos.

6. **MATERION YN CODI**
 - 1.18/14(v) Tyllau ffordd rhwng croesffyrdd Garnedd a Nentydd. Mae GF32176 yn cyfeirio. Roedd aelodau'n derbyn bod peth trwsio wedi digwydd yn yr sardal, ond roedd hynny yn fath dros dro, ac nid o safon. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd ei fod yn mynd ar ôl yr adran oedd yn gyfrifol.

 - 2.18/14(i) Y bwth teleffon yn Nolwen. **PENDERFYNWYD** ceisio dod o hyd i rywun i drwsio'r bwth, ac yna benderfynu beth i'w wneud efo Awgrymwyd diffibriliwr fel defnydd posibl o'r safle.

 - 5.18/6(i) Draen ffordd ar Ffordd Cilgwyn. Mae GF33158 yn cyfeirio. **NODWYD** gyda siom bod y draen ar draws y ffordd wedi ei drwsio, ond nid yr un a grybwyllwyd. Roedd yr aelodau dan yr argraff y dylid bod wedi trwsio'r ddwy draen.

 - 11.18/14(ii) Cyflwr y llwybr troed o Lanelian i Fryn Elian, a adwaenir fel Ffordd Figin. Roedd y mater hwn yn dal ar fynd.

 - 1.19/14(i) Pont Dolwen ger y Lodge. Roedd gohebiaeth wedi ei hanfon i'r Cyngor Sir ynglŷn â gwerth hanesyddol y bont hon, a chan fod y ffordd bresennol wedi bod yn cael

ei defnyddio am nifer fawr o flynyddoedd, roedd yr aelodau'n ystyried nad oedd y bont hon na'r ffordd yn ateb y gofynion, gan fod y ffordd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan drafnidiaeth ysgafn a thrwm pan fo'r A55 wedi ei chau am ba reswm bynnag.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

2.19/7(i) Llythyr gan Abergele Insurance ynglŷn â'r taliad am Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Clerc.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Ionawr 20fed, 2019.

Cyfrif cymunedol£7819.93

Cyfrif busnes£5534.22

1.19/8(i) Mantolen fisol o 21. 12. 18 hyd at 20.1.19 - **CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.**

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN

- i. 2.19/10(i) Cyflog y Clerc (DU)£ 287.23
- ii. 2.19/10(ii) HMRC...(DU)£ 71.81
- iii. 2.19/10(iii) Cyfieithu ... (Hanner y gost)£ 14.75 - Siec 200026
- iv. 2.19/10(iv) Yswiriant Atebolrwydd y Clerc£ 30.00 - Siec 200027
- v. 2.19/10(v) Cofrestru ICO£ 40.00 - Siec 200028

11. CEISIADAU AM GRANT -

2.19/11(i) Cais gan Ffermwyr Ifanc Eryri yn gofyn am nawddogaeth y gymdeithas. **GWRTHODWYD** hyn.

12. MATERION CYNGOR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Dywedodd y Cyngorydd Lloyd ei fod yn parhau i fynd ar ôl y Cyngor Sir ynglŷn â thrwsio ffyrdd yn yr ardal.

Dywedodd hefyd fod rhai o'r ffyrdd wedi eu trwsio ond nad oeddent o'r safon ddisgwyliedig gan y preswylwyr a'r aelodau. Gofynnodd yr aelodau i'r Cynghorydd Lloyd sut y caniatwyd i'r Cyngor Sir roi cymaint o docynnau i bobl ar gyfer digwyddiadau yn y sir, a faint o'r rheiny a roddwyd i swyddogion a chynghorwyr. Roedden nhw'n ystyried hynny i fod yn wastraff arian, yn enwedig gan fod treth y Cyngor yn mynd i godi cymaint. Atebodd y Cynghorydd Lloyd nad oedd o wedi derbyn unrhyw docyn ac na wyddai a oedd swyddogion a chynghorwyr wedi derbyn rhai. Dywedodd fod y drafodaeth ar Dreth y Cyngor i'w chynnal gan y Cyngor yn y ddyfodol agos.

2.19/12(i) Cyhoeddiad gan GBSC ynglŷn â cholli gwasanaethau posibl a throsglwyddo asedau. NODWYD hyn.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - DIM.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

2.19/14(i) Dywedodd aelod fod arwydd yng nghroesffordd Garnedd wedi ei ddifrodi.

15. UNRHYW FATER ARALL

2.19/15(i) Dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2019/20 i'w cymeradwyo. CYTUNWYD ARNYNT AC ARWYDDWYD.

2.19/15(ii) Cofrestr asedau i'w chymeradwyo ac i'w harwyddo ar gyfer 2018/19. CYTUNWYD ARNI AC ARWYDDWYD.

2.19/15(iii) Asesu risg i'w gymeradwyo ac i'w arwyddo ar gyfer 2018/19. CYTUNWYD ARNO AC ARWYDDWYD.

16. CYNLLUNIO -

2.19/16(i) 0/45919 Codi mynedfa newydd i gaeau ar ddwy ochr ffordd Llanrwst ar gyfer symud gwartheg rhwng caeau pori, a sied odro yn Fferm Bryn-y-Maen, Ffordd Llanrwst, Bryn-y-Maen. Mr David Jones. DIM GWRTHWYNEBIAD.

17. MATERION ARCHWILIAD -

2.19/17(i) Adroddiad gan Swyddfa Archwiliad Cymru ynglŷn â Rheolaeth Ariannol a Threfn , Cynghorau Tref a Chymuned. NODWYD hyn.

2.19/17(ii) Adroddiad gan Swyddfa Archwiliad Cymru ynglŷn â threfniadau Archwiliad Mewnol mewn Cynghorau Tref a Chymuned. NODWYD hyn.

2.19/17(iii) Themau Rheolaeth ar gyfer archwiliad 2018/19. NODWYD hyn.

2.19/17(iv) Y cynllun Ffioedd ar gyfer 2019/20. NODWYD hyn.

2.19/17(v) Cynllun Archwiliad Mewnol ar gyfer 2018/19. NODWYD hyn ac ARWYDDWYD. Internal Audit plan for 2018/2019.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 8.45y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....